**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, sef: Ddoe a Heddiw: Ymchwiliad i'r Amgychedd Hanesyddol**

---

Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd ac i aelodau Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am ei adroddiad a'i argymhellion ystyriol a chynhwysfawr. Rwy'n cytuno ei bod yn gyfle gwych i bwyso a mesur ac ystyried effaith y broses o weithredu rhai o ddarpraiaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a chanllawiau cysylltiedig, er y bwriedir cynnal ymchwiliad mwy trylwyr ymhen "tua pum mlynedd" fel y nodwyd.

Ar y cyfan, rwy'n falch o sut mae pethau'n datblygu gyda'r Ddeddf ac rwy'n credu bod ein hadeiladau hanesyddol a'n henebion yn cael eu gwarchod a'u diogelu'n well nag erioed o'r blaen. Mae Cadw a'i bartneriaid yn gwneud cynnydd mawr o ran cydweithredu, gweithio trawsffniol a gweithio gydag asedau yn y sector preifat, yn enwedig drwy ei fforymau a thrwy Bartneriaeth Strategol Cymru Hanesyddol. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran beth y gall y cyrff treftadaeth amrywiol ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Rwy'n edrych ymlaen at y dyfodol er mwyn gweld beth y gall Cadw ei gyflawni fel un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru gyda mwy o hyblygrwydd. Yn ddiweddar, gwnaethom benodi pennaeth newydd i Cadw ac rydym wrthi'n penodi Bwrdd Cadw, ac rwy'n edrych ymlaen at roi'r datblygiadau diweddaraf i aelodau maes o law.

Mae perfformiad Masnachol Cadw, a ysgogwyd gan welliannau mawr i brofiad ymwelwyr, wedi gwella'n sylweddol ac, fel y gwyddoch, 2017-18 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus, gan greu ychydig dros £7.5m mewn incwm - rhaid cymeradwyo hyn. Rwyf o'r farn y bydd rhoi mwy o ymreolaeth i Cadw yn ei helpu i fod hyd yn oed yn fwy llwyddiannus ac i gyflawni pethau gwych. Mae gan Cadw weithlu ymrwymedig a brwdfrydig ac rwy'n argyhoeddedig y bydd Cadw'n mynd o nerth i nerth.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Pwyllgor am ganmol perfformiad Cadw yn yr adroddiad. Er bod Cadw wedi cael ei feirniadu, rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cydnabod ei gydberthynas ardderchog â'i randdeiliaid - mae cyfathrebu wedi bod yn allweddol ac mae ymgynghori a thrafod â'r bobl sy'n ymwneud fwyaf â sector yr amgylchedd hanesyddol wedi bod yn hanfodol ac yn ganolog i'r cynnydd a wnaed.

**Isod, ceir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw roi blaenoriaeth yn awr i gyflwyno Cytundebau Partneriaeth Treftadaeth.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd cytundebau partneriaeth treftadaeth yn dwyn ynghyd berchenogion, awdurdodau sy'n cydsynio a phartïon eraill â diddordeb er mwyn creu cynlluniau rheoli hirdymor ar gyfer asedau hanesyddol. Gall y cynlluniau gynnwys rhaglenni gwaith y cytunwyd arnynt gyda'r caniatadau heneb gofrestredig a/neu ganiatadau adeilad rhestredig angenrheidiol. Drwy ddileu'r angen i gyflwyno ceisiadau am ganiatadau unigol dro ar ôl tro, bydd y cytundebau gwirfoddol hyn yn arbed amser ac adnoddau i bawb dan sylw.

Gan fod disgwyl i'r cytundebau hyn bara sawl blwyddyn, mae'n bwysig sefydlu corff cydlynol ac ystyrlon o reoliadau a chanllawiau cefnogol a fydd, o'r cychwyn cyntaf, yn diwallu anghenion partïon â diddordeb o ran amrywiaeth ac yn addas i'r amgylchiadau penodol yng Nghymru. Yn ddiweddar, mae Cadw wedi rhannu ei gynigion cynnar â phartneriaid o sector yr amgylchedd hanesyddol yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Glandŵr Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol. Mae eu hymatebion adeiladol wedi bod yn amhrisiadwy wrth i ni ddatblygu strwythur cadarn ar gyfer cytundebau partneriaeth treftadaeth yng Nghymru. Caiff dogfennau drafft eu rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus llawn tuag at ddiwedd 2018, gyda'r nod o roi cytundebau partneriaeth treftadaeth ar waith yn 2019.

**Goblygiadau Ariannol** –Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw, yn y flwyddyn i ddod, roi mwy o eglurder o ran y system o hysbysiadau diogelu yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael yn golygu heriau sylweddol i awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r rhesymau dros y ffaith eu bod mewn cyflwr gwael yn gymhleth ac anaml y mae'n hawdd eu hadfer i ddefnydd ymarferol. Er bod gan awdurdodau amrywiaeth o bwerau statudol eisoes ar gyfer delio ag adeiladau rhestredig sydd mewn perygl, maent yn gyndyn o'u defnyddio yn aml, a hynny am sawl rheswm.

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ar gyfer creu 'hysbysiadau diogelu'. Nod yr hysbysiadau hyn yw rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod adeiladau rhestredig sydd mewn cyflwr gwael yn cael eu diogelu'n briodol.

Comisiynodd Cadw waith ymchwil er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu hysbysiadau diogelu a chyhoeddodd yr adroddiad dilynol ar ei wefan (http://cadw.gov.wales/historicenvironment/policy/historicenvironmentbill/provi

sions/furtherimplementation/?skip=1&lang=cy). Nododd y gwaith ymchwil, a oedd yn ymchwilio i'r opsiynau amrywiol ar gyfer hysbysiadau diogelu, dri phrawf sylfaenol er mwyn penderfynu a fyddai'n effeithiol cyflwyno hysbysiad diogelu:

i. A yw cyflwr strwythurol yr adeilad yn golygu y gellir ei ddefnyddio neu ei ailddefnyddio?
ii. A oes posibilrwydd y gallai'r adeilad gael dyfodol economaidd hyfyw?
iii. A oes perchenogaeth 'broblemus'?

Daeth yr adroddiad i'r casgliad mai dim ond mewn nifer fach o achosion y byddai'r profion hyn yn cael eu bodloni (tua 2-3% o'r adeiladau rhestredig sydd mewn perygl). Nododd hefyd y canlyniadau anfwriadol a allai ddod yn sgil cyflwyno hysbysiadau diogelu, yn bennaf annog pobl i beidio â phrynu adeiladau rhestredig sydd mewn perygl.

Nododd yr adroddiad nifer o newidiadau cadarnhaol, anneddfwriaethol a allai gefnogi ymdrechion cyfredol i fynd i'r afael ag adeiladau rhestredig sydd mewn perygl, ynghyd â pharatoi'r ffordd i gyhoeddi hysbysiadau diogelu yn y dyfodol. Ymysg y rhain roedd:

- Rhagor o ganllawiau manwl
- Rhannu arfer gorau a chodi ymwybyddiaeth
- Cronfeydd canolog/rhanbarthol o gyngor arbenigol
- Cronfa benthyciadau gorfodi a dulliau eraill o gefnogi gwaith ar adeiladau sydd mewn perygl.

O ystyried y cyfleoedd cyfyngedig i ddefnyddio hysbysiadau diogelu ar hyn o bryd a'r posibilrwydd cryf y bydd canlyniadau newyddol anfwriadol, bydd blaenoriaethau uniongyrchol Cadw yn canolbwyntio ar bennu dichonoldeb y newidiadau anneddfwriaethol a argymhellir yn yr adroddiad a'u rhoi ar waith pan fo hynny'n ymarferol.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim ar hyn o bryd. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell, nawr bod statws Cadw ar gyfer y dyfodol wedi'i bennu, y dylai'r Gweinidog roi'r rhannau hynny o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol sy'n ymwneud â PHanel Cynghori ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol ar waith neu, os nad yw'n cytuno bod angen panel, y dylai gynnig newidiadau i'r gyfraith bresennol.

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu'r Panel Cynghori ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru. Ei nod yw rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â llunio, datblygu a gweithredu polisïau a strategaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Fodd bynnag, mae'r broses o sefydlu'r Panel wedi'i gohirio wrth i'r trefniadau ar gyfer llywodraethu Cadw yn y dyfodol gael eu gwneud. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys bwrdd gweithredu newydd ag aelodau allweddol a fydd yn cefnogi Cadw a Gweinidogion Cymru. Pan fydd y bwrdd wedi'i sefydlu a phan fydd digon o amser wedi mynd heibio ar gyfer gwerthuso ei effeithiolrwydd, caiff rôl a chwmpas y Panel Cynghori eu hailasesu.

Fel y mae'r Pwyllgor wedi cydnabod yn ei adroddiad, mae gan Weinidogion Cymru'r disgresiwn o ran pryd i gyflwyno'r ddyletswydd i sefydlu'r Panel Cynghori. Felly, caiff y mater ei adolygu'n barhaus.

**Goblygiadau Ariannol** –Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid adolygu effeithiolrwydd y rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol yn barhaus, gyda'r bwriad o gyflwyno mesurau diogelu ychwanegol os bydd y rhestr bresennol yn aneffeithiol.

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

O dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i sefydlu rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod pwysigrwydd ein hetifeddiaeth gyfoethog o enwau lleoedd yn cael ei gydnabod yn eang. Yn y ddwy flynedd ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol, gwnaed cynnydd mawr o arn codi proffil enwau lleoedd hanesyddol.

Rhoddodd Gweinidogion Cymru'r cyfrifoldeb i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru greu a chynnal y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru (https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/). Fe'i lansiwyd ym mis Mai 2017 ac mae ar gael am ddim ar-lein, drwy gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru ac fel set ddata ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn cyflogi curadur llawn amser i wella'r rhestr, delio ag ymholiadau a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ein enwau lleoedd hanesyddol. Drwy addysgu unigolion preifat a gwneuthurwyr penderfyniadau ynghylch gwerth yr elfennau hanfodol hyn o'r amgylchedd hanesyddol, bydd y rhestr yn helpu i ddiogelu enwau lleoedd hanesyddol ar gyfer y dyfodol drwy annog pobl i'w defnyddio'n barhaus bob dydd.

Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y rhestr pan fydd eu swyddogaethau'n cynnwys enwi neu ailenwi lleoedd. Mae hyn yn cynwys enwi neu ailenwi strydoedd, eiddo a llefydd eraill, naill ai'n uniongyrchol neu drwy barti arall. Y bwriad yw y bydd y broses o gynnal y rhestr a'r canllawiau statudol gyda'i gilydd yn arwain at ostwng nifer y

newidiadau ffurfiol i enwau eiddo hanesyddol. Bydd hefyd yn annog pobl i ddefnyddio enwau hanesyddol ar gyfer datblygiadau newydd.

Yn ystod 2018, caiff rhagor o ganllawiau arfer gorau ar enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru eu datblygu. Bydd hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd enwau lleoedd yn hanes diwylliannol, cymdeithasol ac ieithyddol ein gwlad ac yn rhoi rhagor o arweiniad i berchenogion, datblygwyd ac awdurdodau lleol ar beth sydd gan y rhestr o enwau lleoedd hanesyddol i'w gynnig a sut y gellir ei defnyddio'n effeithiol.

Caiff effeithiolrwydd y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru a'r mesurau anstatudol cysylltiedig ar gyfer annog pobl i gadw enwau lleoedd hanesyddol eu hadolygu'n barhaus. Disgwylir y bydd yn cymryd o leiaf bedair neu bum mlynedd i gasglu digon o dystiolaeth i werthuso effaith y mesurau hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar hyn o bryd. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Llywodraeth adolygu'r Ddeddf yn barhaus ac adolygu ei heffaith yn ffurfiol ar ôl iddi fod yn weithredol am bum mlynedd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwerthuso yn elfen hanfodol o'r broses ddeddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mesurau ar waith i gasglu gwybodaeth er mwyn cynnal adolygiad ffurfiol o effaith Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ar ôl iddi fod mewn grym am bum mlynedd. Disgwylir mai anaml y caiff nifer o ddarpariaethau'r Ddeddf eu defnyddio, gyda rhai, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â gorfodi, yn gweithredu fel rhwystr yn bennaf; bydd cyfnod gwerthuso estynedig yn hanfodol ar gyfer unrhyw asesiad ystyrlon o'u heffeithiolrwydd.

Er hyn, mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn dangos bod sawl un o ddarpariaethau Deddf 2016 eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar y broses o reoli'r amgylchedd hanesyddol.

- Defnyddiwyd y broses symlach o roi caniatâd heneb gofrestredig 11 o weithiau ers iddi ddod ar gael ym mis Mai 2017. Er mai dim ond mewn amgylchiadau penodol y mae'r broses symlach yn briodol, mae hyn yn cynrychioli tua deg y cant o gyfanswm nifer y ceisiadau am ganiatâd heneb gofrestredig a wnaed yn 2017-18. Ym mhob achos, mae'r broses symlach wedi lleihau beichiau gweinyddol yn sylweddol i berchenogion a Cadw heb amlygu'r henebion dan sylw i risgiau ychwanegol.

- Cyflwynwyd y broses o gynnal ymgynghoriad statudol cyn cofrestru heneb neu restru adeilad ym mis Mai 2017. Ers hynny, mae 28 o asedau wedi'u dynodi ac ni wnaed unrhyw geisiadau am adolygiad i Weinidogion Cymru. Gyda phroses diogelwch dros dro bellach ar

waith, ni chafwyd unrhyw achosion o ddifrodi na gwneud gwaith anawdurdodedig i asedau yn ystod y broses ddynodi.

- Lansiwyd y Rhestr statudol o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ar 8 Mai 2017, gyda 350,000 o enwau. Mae curadur llawn amser y rhestr yn cofnodi gwybodaeth am ei datblygiad parhaus, y defnydd a wneir ohoni a'r ymholiadau a ddaw i law. Ers ei lansio, mae 44,266 o ddefnyddwyr unigol wedi ymweld â'r safle mewn 59,775 o sesiynau unigol. Ychwanegwyd mwy na 4,000 o enwau lleoedd newydd at y safle ac mae'r curadur wedi delio â mwy na 100 o sylwadau ac ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd a chyrff cyhoeddus.

  Mae Cadw'n cysylltu â swyddogion enwi a rhifo strydoedd awdurdodau lleol er mwyn sefydlu dulliau ar gyfer casglu data yn rheolaidd ar y defnydd a wneir o'r rhestr wrth enwi ac ailenwi eiddo yn unol â'r canllawiau statudol.

- Mae pedair ymddiriedolaeth archaeolegol Cymru sy'n llunio ac yn cynnal y cofnodion statudol ar yr amgylchedd hanesyddol ar ran Gweinidogion Cymru yn adrodd yn rheolaidd ar yr ychwanegiadau a'r gwelliannau a wneir i'r cofnodion a'r ymholiadau a ddaw i law. Caiff y rhain eu crynhoi yn y tabl isod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mehefin 2017 a diwedd Chwefror 2018.

| Ymddiriedolaeth Archaeolegol | Cofnodion Dwyieithog Newydd | | Cofnodion wedi'u Gwella | Ymholiadau | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Craidd | Digwyddiadau | | Masnachol | Anfasnachol |
| Clwyd-Powys | 232 | 243 | 4558 | 63 | 60 |
| Dyfed | 1613 | 117 | 5227 | 41 | 56 |
| Morgannwg-Gwent | 566 | 417 | 7179 | 78 | 109 |
| Gwynedd | 490 | 188 | 1359 | 12 | 61 |

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn archwilio cofnodion yr amgylchedd hanesyddol bob pum mlynedd er mwyn adolygu ansawdd data, monitro safonau a lefelau gwasanaeth a nodi anghenion ar gyfer gwella. Caiff yr archwiliad nesaf ei gynnal yn 2020.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a phartneriaid eraill er mwyn annog sector yr amgylchedd hanesyddol i efelychu gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i sicrhau bod y gwaith o reoli'r sector yn fwy ecogyfeillgar.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Cadw yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y newid yn yr hinsawdd, gan ganolbwyntio ar addasu ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn aelod allweddol o'r is-grŵp Newid yn yr Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r is-grŵp wrthi'n datblygu Cynllun Addasu Sectoraidd ar yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid yn yr Hinsawdd, a gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Cam nesaf y gwaith fydd datblygu cynllun gweithredu. Ymysg y camau gweithredu a nodwyd eisoes mae datblygu a lledaenu arfer gorau er mwyn gwella cadernid yr amgylchedd hanesyddol i reoli effeithiau newid yn yr hinasawdd. Bydd profiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn y maes hwn yn amhrisiadwy. Er enghraifft, mae Cadw yn arsylwi'r Rhaglen Fit for the Future. Rhwydwaith o sefydliadau ydyw sy'n cydweithio i fod yn gyfeillgar i'r hinsawdd, yn ymaddasol ac yn gadarn, a sefydlwyd ac a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r rhwydwaith yn cynnig cymorth ymarferol, digwyddiadau a gweithdai, ac mae'n annog ei aelodau i rannu arfer da.

O fewn y rhwydwaith, mae gweithgor newid yn yr hinsawdd wedi'i ddatblygu. Mae cyfres o weithdai yn cael eu hwyluso er mwyn rhannu'r dulliau a ddefnyddir gan aelodau i addasu i'r newid yn yr hinsawdd, a dulliau a chyfarpar ar gyfer asesu effeithiau ac ymatebion i addasu mewn lleoliadau penodol. Gwahoddwyd Cadw i gymryd rhan yn un o'r digwyddiadau hyn yn Nhŷ Tredegar. Cafodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyllid KESS2 hefyd er mwyn i fyfyriwr PhD gynnal asesiad o effaith ei hystad ar yr hinsawdd. Gwahoddwyd Cadw gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i helpu i lywio'r briff.

O ran Ystad Cadw, mae swyddogion wedi rhoi sawl menter lleihau ynni a charbon ar waith. Ymysg y rhain mae:

- gosod unedau LED ynni isel yn lle llifoleuadau ynni uchel ym mhob heneb sydd wedi'i goleuo. Mae'r fenter hon, a gafodd ei datblygu, ei dylunio a'i gweithredu gan Cadw, wedi haneru ei defnydd o ynni a'i hallyriadau carbon. Mae Historic Scotland wedi astudio'r fenter hon ac mae'n bwriadu cyflwyno'r un prosiect ar gyfer yr henebion yn ei ofal; dair blynedd ar ôl Cadw;
- gosod goleuadau mewnol gydag unedau LED ynni isel gan sicrhau arbedion ynni a charbon o tua 80 y cant. Mae'r unedau golau hyn hefyd yn cynhyrchu llai o wres ac yn lleihau'r angen am aerdymheru, sy'n arwain at ragor o arbedion;
- gosod mesuryddion deallus ym mhob heneb Cadw ar gyfer cofnodi'r defnydd o ynni yn awtomatig. Mae hyn yn golygu y gellir craffu'n well ar y defnydd o ynni gan sicrhau y gellir cymryd camau unioni mewn meysydd lle mae'r defnydd o ynni ar ei uchaf;
- caiff pob datblygiad newydd a chanolfannau ymwelwyr eu dylunio a'u hadeiladu gan ddilyn egwyddorion dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a bydd dulliau creu pŵer ar y safle wedi'u cynnwys pan fo hynny'n ymarferol. Mae'r ganolfan newydd i ymwelwyr yng Nghastell Dinbych yn cynnwys Pwmp Gwres

o'r Ddaear, awyru naturiol, paneli ffotofoltäig a System Rheoli Adeiladu gyda sgrin data byw yn yr ardal i ymwelwyr er mwyn galluogi ymwelwyr i weld faint o ynni a ddefnyddir ac a gynhyrchir mewn 'amser real'. Yn ddiweddar, cafodd system debyg ei gosod yn ystod y broses o adnewyddu'r ganolfan i ymwelwyr yn llwyr yn Abaty Tyndyrn lle gall plant ar deithiau ysgol weld a dysgu sut rydym yn gofalu am ein hamgylchedd;

- mae gwaith datblygu diweddar ger Castell Harlech, sy'n Safle Treftadaeth y Byd, wedi sefydlu canolfan ddehongli newydd i ymwelwyr o fewn hen Westy'r Castell. Roedd y gwaith addasu a chadwraeth ar yr adeilad Fictoraidd hwn yn rhan graidd o'r prosiect hwn; arbedwyd llawer o allyriadau carbon, ac arian, drwy gadw ac ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli eisoes fel hwn. Gosodwyd Pympiau Gwres o'r Aer i wresogi ac oeri'r cyfleuster newydd. Caiff goleuo a dehongliadau tafluniedig eu cyflwyno bellach gan ddefnyddio cyfarpar LED ynni isel.

Bydd Cadw yn parhau i geisio cyfleoedd i

- archwilio ateibon pŵer amgen – ynni o'r aer, ynni o'r ddaear, ynni dŵr a solar lle y bo'n bosibl
- ymgorffori egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy yn niwylliant y sefydliad
- parhau i hyrwyddo buddiannau cadarnhaol ailgylchu gwartraff

Yn olaf, mae'r cynnydd a wnaed gan Cadw tuag at yr ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2010 i leihau allyriadau carbon 30% erbyn 2020 yn gadarnhaol iawn. Mae proses i ddilysu ffigurau ar y defnydd o ynni yn 2017/18 yn mynd rhagddi a rhagwelir y bydd Cadw wedi lleihau ei allyriadau carbon 38% – ddwy flynedd cyn y targed, sef 2020. Mae hyn yn gam aruthrol o ystyried mai 2017/18 oedd cyfnod masnachu mwyaf llwyddiannus Cadw erioed.

**Goblygiadau Ariannol** –Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw gyhoeddi ei arolwg o dreftadaeth sydd mewn perygl ar y cyfle cyntaf ac yn y ffordd fwyaf cyflawn sy'n cyd-fynd â gofynion diogelu data.

**Ymateb: Derbyn**

Cynhaliwyd arolygon o gyflwr adeiladau rhestredig yng Nghymru ers mwy na 15 mlynedd. Cyn 2012, comisiynwyd yr arolygon yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol gyda chyllid wedi'i ddarparu gan Cadw. Fodd bynnag, ar ddiwedd 2012, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru, penododd Cadw ymgynghorwyr, i gynnal arolwg o gyflwr adeiladau rhestredig ledled Cymru dros gyfnod treigl o bum mlynedd, gan arolygu tua 20% o'r stoc adeiladau rhestredig yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r rhaglen arolygon yn

sicrhau bod cyflwr y 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei asesu gan ddefnyddio methodoleg gyson.

Mae contract newydd ar gyfer y cam nesaf o arolygon ar y cam tendro ar hyn o bryd a chaiff lefel o fynediad i'r cyhoedd ei chynnwys yn y contract newydd.

**Goblygiadau Ariannol** –Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

## Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw ailgyflwyno ei arian grant ar gyfer perchenogion adeiladau rhestredig a henebion sydd mewn perygl. Gallai hyn ganolbwyntio'n arbennig ar:

- Adeiladau/henebion sydd mewn perygl
- Sichrua bod adeiladau rhestredig yn ecogyfeillgar

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Yn ddiweddar, mae Cadw wedi ailgyflwyno ei raglen grantiau ar gyfer asedau hanesyddol. Yn ystod 2018/2019 bydd y cynllun newydd yn cefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb", drwy gynnig grantiau fel cyfraniad tuag at gostau adnewyddu ac adfer asedau cymunedol hanesyddol, fel Neuaddau Pentref a Chymunedol, Sefydliadau, Llyfrgelloedd ac ati. Gall Addoldai sy'n agored i ddefnydd cymunedol ehangach hefyd fod yn gymwys. Bydd cyflwr adeilad, a ph'un a yw mewn perygl, yn ffactor allweddol wrth benderfynu pa geisiadau i'w cefnogi.

Caiff grantiau Cadw eu hadolygu'n barhaus ac mae'n anochel y bydd eu ffocws yn newid wrth i flaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg. Fel bob amser, croesewir arsylwadau'r Pwyllgor a byddwn yn ystyried eu sylwadau mewn perthynas â gwneud adeiladau rhestredig yn fwy ecogyfeillgar. Fodd bynnag, mae hefyd angen i Cadw ystyried anghenion ei ystad ei hun wrth flaenoriaethu ei raglen cyfalaf.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i ailgyflwyno'r Grant Adeiladau Hanesyddol.

## Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw sefydlu "rhaglen wytnwch" (yn debyg i waith Cyngor Celfyddydau Cymru yn y maes hwn) er mwyn helpu perchenogion asedau treftadaeth dynodedig i'w gwneud yn fwy cynaliadwy yn ariannol.

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Mae Cadw eisoes yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella gwytnwch y sector treftadaeth, yn enwedig y sefydliadau bach hynny sy'n helpu i ofalu am ein hasedau hanesyddol pwysig. Er enghraifft, mae Cadw'n ariannu'r Gronfa

Treftadaeth Bensaernïol i roi grantiau ar gam cynnar i elusennau a mentrau cymdeithasol sy'n bwriadu cymryd perchenogaeth o adeiladau sydd wedi'u hesgeuluso yn eu cymunedau a/neu eu hadfer, gan helpu i sefydlu dichonoldeb cynigion prosiect.

Mae Cadw hefyd yn gweithio'n agos gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri sy'n gweinyddu grantiau Treftadaeth Wydn a all helpu i atgyfnerthu sefydliadau, a gwella gallu staff a gwirfoddolwyr i reoli treftadaeth yn well yn yr hirdymor

**Goblygiadau Ariannol** – Dim.

**Argymhelliad 10**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog roi targedau mwy manwl, amserlen glir ar gyfer cynnydd a cherrig milltir mesuradwy ar gyfer datblygu partneriaeth Cymru Hanesyddol. Rydym yn disgwyl cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn y maes hwn gan y Gweinidog yn y dyfodol.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Partneriaeth Cymru Hanesyddol yn bartneriaeth ac, fel y cyfryw, credaf ei bod yn briodol bod y bartneriaeth gyfan yn pennu targedau i'w hunan ac yn gyfrifol amdanynt, yn hytrach na bod targedau'n cael eu pennu gan Weinidogion. Mae hyn yn unol â'm ddull gweithredu flaenorol ar gyfer cyrff hyd braich lle nodwyd y ddylent wneud penderfyniadau eu hunain. Fodd bynnag, byddaf yn tynnu sylw'r Bartneriaeth Strategol at eich argymhelliad ac yn gofyn iddi ei hystyried. Byddaf yn disgwyl adroddiadau rheolaidd, gan Gadeiryddion y bartneriaeth

**Goblygiadau Ariannol** –Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 11**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog lunio cynllun yn nodi sut y bydd yn annog ac yn cefnogi cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a gwaith trawsffiniol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae pedair fforwm eisoes ar waith sy'n cefnogi ac yn annog cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a gwaith trawsffiniol. Sefydlwyd y Fforwm Treftadaeth Adeiledig yn 1997 ac mae wedi bod yn ddull llwyddiannus o gydweithredu rhwng swyddogion cadwraeth awdurdodau lleol a Cadw. Mae'r aelodaeth bellach wedi cynyddu i gynnwys pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru a sefydliadau cadwraeth eraill fel y Gymdeithas Fictoraidd, y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Prif ddiben y Fforwm Treftadaeth Adeiledig yw:
- Gweithredu fel fforwm ar gyfer cyfnewid safbwyntiau ar bynciau/materion a chytuno ar gamau gweithredu ar gyfer partneriaid yn y dyfodol;
- Rhoi enghreifftiau o arfer da;

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartneriaid ar newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth a chanllawiau;
- Cynnig cyfle i bob aelod roi cyflwyniadau a mynd i gyflwyniadau gan gyrff/sefydliadau eraill ar bynciau dewisol.

Mae'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ac mae is-grwpiau'r gogledd, y de a'r canolbarth yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Cynhelir cyfarfod nesaf llawn y Fforwm Treftadaeth Adeiledig ar 6 Gorffennaf 2018.

Ymhellach, comisiynodd Awdurdodau Cynllunio Gogledd Cymru a Cadw brosiect ar y cyd gyda'r bwriad o helpu i wella gwasanaethau treftadaeth adeiledig ledled y rhanbarth. Nododd y prosiect gyfres o gyfleoedd i wella drwy gydweithredu gwell, a sefydlwyd naw llif gwaith ar wahân er mwyn archwilio'r rhain yn fanwl, a gwnaed cyfres o argymhellion i grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru.

Mae angen rhagor o waith i ddatblygu'r argymhellion hyn, a bydd y cyrff comisiynu yn adolygu'r camau gweithredu sydd heb eu cymryd. Cyflwynwyd y syniadau a'r argymhellion a gynigiwyd yn y gogledd i Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, gan roi cyfle i drafod y broses o gyflwyno'r newidiadau arfaethedig ledled Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** –Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw wella ei ddulliau o hyrwyddo safleoedd nad ydynt yn perthyn i Cadw ar ei holl safleoedd, ac y dylai ceidwaid safleoedd ac adeiladau hanesyddol eraill wneud yr un fath, yn enwedig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac awdurdodau lleol.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Cadw eisoes yn gwneud llawer i hyrwyddo safleoedd nad ydynt yn perthyn i Cadw. Fodd bynnag, dylai gael y rhyddid i bennu ei flaenoriaethau marchnata parhaus ei hun.Hefyd, nid yw Cadw mewn sefyllfa i ddweud wrth eraill sut y dylent flaenoriaethu eu rhaglenni hyrwyddo. Mae hwn yn faes sy'n cael ei ystyried gan bartneriaeth Cymru Hanesyddol (sy'n cysylltu ag argymhelliad 10) ac yn fwy cyffredinol gan sector yr Amgylchedd Hanesyddol drwy fforymau fel Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol. Fodd bynnag, bydd Cadw yn parhau i annog cydweithrediad o'r fath ac yn helpu i'w hwyluso.

Un enghraifft dda o sut mae'r sector wedi traws-hyrwyddo ei safleoedd yn y blynyddoedd diweddar yw'r Cynllun Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan a lansiwyd yn 2011. Mae hyn yn canolbwyntio ar 13 o linynnau allweddol fel "Cymru: y Genedl Ddiwydiannol", "Owain Glyndŵr a'i Wrthryfel" a "Gwreiddiau a Chynhanes Cymru". Mae'r rhain bob amser wedi ymwneud â dilyn stori benodol – nid dim ond dehongli henebion yng ngofal Cadw. Un rhan hanfodol o'r cynllun yw croesgyfeirio safleoedd drwy'r fenter 'Dilynwch y stori' sy'n

annog ymwelwyr i ymweld â safleoedd eraill sy'n gysylltiedig â'r straeon ar y safleoedd maent yn ymweld â nhw. Mae holl ddeunydd dehongli newydd Cadw yn gwneud hyn, ac mae partneriaid fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi defnyddio'r logos "Dilynwch y Stori" mewn deunydd dehongli a ariannwyd drwy'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth.

Mae manylion am hyn ar gael drwy wefan Cadw:

http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Pan_Wales_OverviewWELSH.pdf

http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Followthestory_Welsh.pdf

Mae sawl enghraifft arall o weithio'n dda mewn partneriaeth sy'n digwydd eisoes. Er enghraifft, mae Cadw wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yr Ymddiriedolaeth Archaeolegol ranbarthol berthnasol, a Chasgliad y Werin Cymru, ynghyd â chymdeithasau lleol amrywiol ar y prosiect 'Lle Hanes' yn yr Eisteddfod Genedlaethol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cydweithredodd Cadw ac Amgueddfa Cymru ar brosiect Dreigiau a Deinosoriaid dros dymor yr haf, i hyrwyddo taith Dreigiau Cadw, ac arddangosfa deinosoriaid Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff yr holl draws-hyrwyddo ei gostio o fewn cynlluniau dehongli – nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cadw weithio (o fewn partneriaeth yr Amgylchedd Hanesyddol) gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn gweld sut y gellir defnyddio gwybodaeth sylweddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y farchnad i:

- Gynyddu refeniw ym mhob rhan o sector yr amgylchedd hanesyddol;
- Gwella dehongliadau digidol mewn safleoedd hanesyddol yng Nghymru

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Mae'n werth dweud eto bod perfformiad Masnachol Cadw, a ysgogwyd gan welliannau mawr i brofiad ymwelwyr, wedi gwella'n sylweddol a 2017-18 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus yn hanes Cadw, gan greu ychydig dros £7.5m mewn incwm. Mewn gwirionedd, 2015-16 – 2017-18 oedd ei dair blwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed. Er bod gwersi i'w dysgu o hyd, gallai eraill hefyd gael budd o brofiad Cadw.

Mae Cadw wedi gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar sawl menter yn y gorffennol, yn cynnwys cymryd rhan mewn ymgyrchoedd marchnata cydweithredol er mwyn traws-hyrwyddo safleoedd; ymchwil ar y cyd e.e. gwerthuso effeithiolrwydd llenyddiaeth argraffedig; digwyddiadau, gan gynnwys y rhaglen Drysau Agored; prosiectau addysgol; aelodaeth; gwirfoddoli a chynlluniau allgymorth cymunedol.

Hefyd, roedd Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn un o banel o arbenigwyr a benodwyd i eistedd ar Grŵp Llywio Gweinidogol yn 2015 gyda'r dasg o adolygu gweithgareddau masnachol Cadw, cynghori arnynt ac argymell gwelliannau iddynt, gyda'r nod o wella perfformiad masnachol Cadw.

Yn ddiweddar, rhoddodd cydweithwyr o Cadw gyflwyniad ar y datblygiadau mewn deunydd dehongli digidol ar ei safleoedd mewn nifer o ddigwyddiadau, yn cynnwys cyfarfod â'r gwledydd datganoledig yn benodol ar fentrau digidol, a chynhadledd Gorffennol Digidol yn ddiweddar a oedd wedi'i hanelu at arbenigwyr yn y diwydiant.

Byddai Cadw yn awyddus i barhau i adeiladu ar y berthynas â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan gynnwys rhannu arferion gorau ym maes datblygiadau digidol a chael cyngor ac arbenigedd mewn meysydd megis aelodaeth, arlwyo a manwerthu, yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol**– Ni ddylai fod unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Os bydd unrhyw oblygiadau, caiff costau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 14**
Mae'r pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn parhau i gael ei roi i'r amgylchedd hanesyddol drwy ba raglenni cyllid rhanbarthol ac amaethyddol bynnag a fydd yn bodoli ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Dangosodd ymchwil a wnaed gan Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol i sector yr amgylchedd hanesyddol gael o leiaf £74m o gyllid yr UE yn ystod 2017-16 fel ei gyfran o grantiau o'r Cronfeydd Strwyturol a Buddsoddi Ewropeaidd, yn cynnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

O'r ffigurau hyn, mae'n amlwg y bydd y methiant i sicrhau cyllid o ffynonellau UE eraill yn lle cyllid a gollwyd yn cael effaith ddifrifol ar y cyfraniad sylweddol ac eang a wneir gan dreftadaeth i'r economi, cyflogaeth ac adfywio yng Nghymru, ac i gamau gweithredu mewn meysydd fel lles, iechyd, creu lle a chynhwysiant cymdeithasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau y dylid cymryd cyfrifoldeb am unrhyw raglenni cyllid perthnasol a gynigir gan Lywodraeth San Steffan yn lle

rhai a gollwyd. Dylai sector yr amgylchedd hanesyddol allu parhau i roi ei achos dros gefnogi prosiectau gwerth chweil drwy unrhyw raglenni cyllid o'r fath a gyflwynir yn lle rhai a gollwyd.

Yn yr un modd, mae amgylchedd hanesyddol Cymru wedi cael budd o gynlluniau rheoli tir gwledig a ddatblygwyd drwy PAC – fel Tir Gofal a Glastir. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried yr achos dros ddarparu cyllid yn y meysydd hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid yw'r costau yn hysbys ar hyn o bryd. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 15**
Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog gynnal arolwg o'r broses o weithredu'r argymhellion hyd yma yn adroddiad y Farwnes Andrews ar ddiwylliant a thlodi er mwyn dysgu pa arfer da y gellir ei rannu, pa wersi a gaiff eu dysgu a pha gamau pellach y mae angen eu cymryd er mwyn gweithredu'r argymhellion.

**Ymateb: Derbyn**

Mae MALD, sy'n arwain y rhaglen *Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant* yn Llywodraeth Cymru, yn croesawu diddordeb y Pwyllgor yn y rhaglen a'r argymhelliad uchod. Dylid nodi bod y Pwyllgor, wrth ddod i'w gasgliad, wedi ystyried safbwyntiau gan gyrff sy'n gysylltiedig â'r Amgylchedd Hanesyddol; mae rhaglen Cyfuno yn gweithio mewn sector llawer ehangach sy'n cynnwys y celfyddydau, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, a'r sectorau cymunedol, cyflogadwyedd, gwirfoddol ac addysg. Mae sefydliadau eraill fel cymdeithasau tai hefyd yn cefnogi Cyfuno..

Mae'r sector diwylliannol wedi ymateb i'r argymhellion gyda brwdfrydedd ac ymrwymiad. Mae wedi croesawu'r cyfle i gydweithredu ar raglen genedlaethol strategol ag amcanion sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi.

Lluniodd yr argymhellion yn adroddiad Andrews fframwaith er mwyn llywio rhaglen Cyfuno. Goruchwyliwyd y cynnydd yn erbyn y 33 o argymhellion gan Andrews, a rhaglen Cyfuno, gan y Bwrdd Cynhwysiant Diwylliannol, a sefydlodd un o'r argymhellion ei hun.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno bod 11 o argymhellion Andrews bellach wedi'u cwblhau, bod tri wedi cael eu disodli gan ddatblygiadau polisi eraill a bod 19 yn barhaus, gyda chryn gynnydd wedi'i wneud yn y rhan fwyaf o'r rhain. Dylid nodi bod nifer o'r argymhellion yn uchelgeisiol eu natur a bod cynnydd a wneir tuag at eu cwblhau yn wrthrychol ac yn anodd ei fonitro. ***Ceir crynodeb o'r argymhellion a'r chynnydd presennol yn Atodiad 1.***

Mae'r Bwrdd hefyd o'r farn, ers 2013/14, pan ysgrifennwyd yr adroddiad, fod y sefyllfa o ran polisi wedi datblygu'n sylweddol, nid dim ond o fewn y sector diwylliannol ond hefyd o fewn y sectorau cymunedol ac addysgol. Mae nifer o

argymhellion yn cyfeirio'n glir, er enghraifft, at gydweithredu â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; cafodd y rhain eu cyflwyno yng nghyfnod peilot Cyfuno ond mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi dirwyn i ben erbyn hyn. Mae argymhellion eraill mewn perthynas â phrif ffrydio darpraiaeth ddiwylliannol yn y cwricwlwm ffurfiol wedi'u disodli gan raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau Llywodraeth Cymru, ac wedi'u hymgorffori yn y rhaglen honno. Gan ystyried hyn, mae angen i'r rhaglen barhaus fabwysiadu dull gweithredu hyblyg wrth weithredu argymhellion Andrews.

Cynhaliwyd gwerthusiad eang ar raglen Cyfuno yn ei chyfnod peilot; mae hyn wedi helpu i lywio ac addasu'r rhaglen. Gwnaethom gyhoeddi adroddiad gwerthuso ar raglen 2015-16 a ddangosodd:

- pa weithgarwch sydd fwyaf effeithiol wrth gefnogi pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- pa gymorth lleol a chenedlaethol sydd ei angen i alluogi hyn
- ble yw'r lle gorau i dargedu cyllid a chymorth arall fel hyfforddiant

Gwnaethom hefyd gyhoeddi adroddiad gwerthuso ar ail flwyddyn cyfnod peilot Cyfuno yn 2016-17. Roedd hyn yn canolbwyntio ar effaith y rhaglen i'r sector diwylliannol, ac ymysg y canfyddiadau allweddol roedd y canlynol:

- roedd sefydliadau diwylliannol yn targedu gweithgareddau'n fwy effeithiol tuag at bobl oedd yn wynebu tlodi
- roedd sefydliadau'n cydweithredu'n fwy effeithiol er mwyn cyflawni o fewn cymunedau difreintiedig
- roedd unigolion oedd yn wynebu tlodi yn eu cymunedau yn manteisio mwy ar weithgareddau diwylliannol o ganlyniad i rhaglen Cyfuno.

Caiff gwerthusiad pellach ei gynnal yn 2018-19, a fydd yn ystyried effaith ac effeithiolrwydd cyllid Llywodraeth Cymru. Bydd y dysgu parhaus hwn yn llywio unrhyw gyfnodau'r rhaglen yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd wrthi'n cyfrannu at ymgynghoriad ac ymarfer adolygu ar y ffordd orau o ddatblygu'r rhaglen y tu hwnt i'r terfyn cynllunio cyllideb presennol sef 2018-19. Bydd hyn yn cynnwys ystyried arfer da a gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad presennol a'n gwerthusiad parhaus, yn ogystal ag opsiynau o ran darpariaeth a chyllid yn y dyfodol. Bydd y Gweinidog yn ystyried canlyniadau'r ymarfer hwn yn y misoedd nesaf gan ddisgwyl y bydd yn gallu amlinellu cyfeiriad y rhaglen ar gyfer y dyfodol yn ddiweddarach yn 2018.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer cynnal yr adolygiad ei hun eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 16**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru bennu union natur "mwy o hyblygrwydd" a roddir i Cadw yn y dyfodol yn fanylach, yn enwedig lle mae hyn yn wahanol i'r trefniadau a gynigiwyd yn yr achos busnes a luniwyd ym mis Hydref 2017.

**Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Roedd yr achos busnes a gyhoeddwyd, a nododd yr opsiwn gorau ar gyfer dyfodol Cadw yn cynnwys tabl yn amlinellu deg gwelliant busnes allweddol a awgrymwyd pe bai Cadw yn aros yn rhan o'r Llywodraeth.  Mae'r eitemau yn y tabl hwn yn dal i fod yn gyfredol iawn a byddant yn caniatáu ar gyfer yr hyblygrwydd ychwanegol tybiedig y bydd ei angen er mwyn i Cadw weithredu'n fwy effeithiol o fewn y Llywodraeth – gweler Atodiad 2.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sefydlu Dogfen Fframwaith ar gyfer Cadw a fydd yn nodi'r trefniadau ar gyfer y bwrdd gweithredu mewnol, rhyddid mewnol a chynllun dirprwyo'r system fewnol, a chynlluniau cyllideb a chynlluniau busnes. Caiff hon ei chyhoeddi maes o law.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu cymryd o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**